

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED RHOSYR A
GYNHALWYD YN NEUADD PENTREF LLANGAFFO
AM 7.00 O'R GLOCH NOS LUN 27ed TACHWEDD 2017**

AELODAU'N BRESENNOL

Cadeirydd Cynghorydd O.M.Thomas

Cynghorwyr : Mr Gwilym Roberts, Mr Thomas Hughes,. Mrs Jane Roberts Mr Dennis Owen, Mrs Angharad Jones, Mr David Roberts , Cynghorydd Tim Owen Mrs Jane Sykes Cynghorwr Sir Peter Rogers a Bryan Owen.

1.YMDDIHEURIADAU :Cynghorwr Miss Lowri Owen a Mrs Glenys Owen

2: DATGAN DIDDORDEB : Datgan dim diddordeb

3: COFNODION Y MIS BLAENOROL: Penderfyniad: Cadarnhawyd gan y Cynghorydd Tim Owen a eiliwyd gan y Cynghorydd David Roberts Derbyniwyd y rhain ac arwyddwyd fel rhai cywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ed Hydref 2017.

CYFOETH NATURIOL CYMRU : Amlinellodd Graham Williams ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a Peter Lloyd y cynlluniau ar gyfer cwmpo 4 hectar o goedwig pinwydd yn Llanddwyn i fonitro effaith y bwrdd dŵr a gynlluniwyd ar gyfer Ionawr a Chwefror 2018 Cododd y Cynghorydd David Roberts bwnc nid oedd y cyhoedd yn hapus ynghylch y posibilrwydd o dorri coed gan fod y goedwig wedi'i blannu yn wreiddiol i wrthsefyll effaith symudiad y twyni tywod. Cynigiodd y Cynghorydd Dennis Owen gwestiwn ynghylch effaith lorïau sy'n teithio nol a ymlaen i'r traeth drwy'r pentrefi.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL :

4.1: Llythyr mewn llaw gan adran Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â'n cais am ffens i'w godi gan Tre Rhosyr yn Niwbwrch tu allan i safle'r ysgol newydd. Ni ellir codi ffens oherwydd lled y palmant a byddai'n rhwystro gweledigaeth y gyrwyr lori sy'n mynd i'r briffordd o'r stâd. Cadarnhawyd fod cynllun Rheoli Cyfnod Adeiladu yn ei le ar gyfer dosbarthiadau i'r safle.

5: MYNWENTYDD, TORRI GLASWELLT A LLWYBRAU :

Mae Mr Alun Thomas wedi mynychu a thorri'r gwrych yn ôl yn ôl y gofynwyd gan gynghorwyr yn ystod y misoedd diwethaf. Anfoneb gan Mr Alun Thomas am wahanol waith a wnaed yn ystod y mis diwethaf, gan gynnwys cynnal a chadw peiriannau y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd ysgrifennu at Mr Thomas i ddiolch iddo am y ffordd broffesiynol, mae wedi cynnal a chadw holl beiriannau a mynychu torri gwair a thorri gwrychoedd i'r Cyngor Cymuned.

6 : CEISIADAU CYNLLUNIO.

Adroddiad ar roi caniatâd cynllunio ar Cae Gors, Niwbwrch

7: PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO'R CYNGOR

45C138J Codi anedd gan gynnwys balconi Mermaid Cottage Brynsiencyn **GWRTHWYD**

45C309A / AD Codi bwrdd hysbysebu Neuadd y Pentref Llangaffo **RHODDWDYD**

8 : ADRODDIADAU CYNGHORWYR : Rhoddodd y Cyngorydd Tim Owen wybod i'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r sefyllfa ynglŷn â swydd addysgu newydd yn Ysgol newydd Bro Dwynwen yn Niwbwrch.

9 : ADRODDIADAU CYNGOR SIR : Dywedodd y Cyngorydd Peter Rogers wrth y Cyngor Cymuned bod y cyflymder ar hyd y briffordd yn Nwyran wedi cael ei ollwng o 60mya i 40 mya. Cytunwyd bod y Cyngorydd Rogers yn gofyn i Swyddogion Sir Ynys Môn ymweld â rhai ardaloedd yn Dwyran sy'n agored i lifogydd yn ystod tywydd garw gwlyb, gyda posibilrwydd o archwilio'r cwlferon a allai gael eu rhwystro.

10 GOHEBIAETH : HYDREF / TACHWEDD 2017 : Gweler y daflen atodedig

11: MATERION ARIANNOL A GWEINYDDU:

11.1: Adroddiad Ariannol Misol: Datganiad Bank Cyflwynwyd ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y cadeirydd.

11.2 Asesiadau Risg Ni chafwyd unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

12. TALIADAU: Penderfynwyd talu'r canlynol:

| | £ |
|---|----------|
| Alun Thomas Torri gwair | 1,118.30 |
| Cynnal a chadw peiriannau a lleogi JCB | 390.00 |
| Ddraig Goch Tanwydd | 25.51 |
| Lleogi Ystafell Nwuadd Pentre Llangaffo | 20.00 |
| Dwr Cymru Mynwent Milgwyn | 16.36 |
| M.Owen treuliau | 32.37 |
| M.Owen Cyflog | 1,119.36 |
| Rent Cae Chware Dwyran | 46.28 |

£ 2,768.18

Derbyniodd arian £ 75.00 o gladdu Mrs Elizabeth Roberts

13. UNRHYW MATERION ERAILL:

13.1: Adroddwyd am wrychoedd ac ymylon amrywiol a phenderfynwyd gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn ac Mr A.Thomas eu torri.

13.2: Codwyd pryderon ynghylch llifogydd i'r ffordd ar y gyffordd yn Dwyran ger bwthyn Potel inc hefyd y llithren fawr a adawyd ar ymyl Tal Gwynedd. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Ynys Môn i ofyn iddynt fynychu'r materion hyn.

13.3 Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at adran addysg y Gyngor Sir i holi beth fydd yn digwydd i cae Chware ysgol Dwyran pan fydd yr ysgol yn symud i Niwbwrch yn 2019.

13.4 Nid ywr Cyngor Sir wedi torri gwrychoedd ym mhen ffordd filltir Dwyran ar ol ir Cyngor Cymuned ofyn. Penderfynwyd ysgrifennu eto er mwyn gofyn i'r mater gael ei fynychu cyn gynted a posib.

13.5 Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â cherbydau Network Rail sy'n parcio ar ymylon y glaswellt gan y bont Rheilffordd yn Llangaffo ac mae hyn yn ei dro yn creu problem gyda mwd ar y ffordd. Gofynnwyd am wybodaeth hefyd ynghylch y cyfyngiadau pwysau ar y bont hwn gan fod yna bryder ynghylch cerbydau mawr sy'n cario deunyddiau adeiladu i adeilad newydd yr ysgol yn Niwbwrch.

13.6 Codwyd pryderon ynghylch tân gwyllt sy'n cael eu gillwn ger Clynnog yn Dwyran Penderfynwyd ysgrifennu at Menai Cottages i ofyn iddynt roi gwybodaeth i'r tenantiaid ymatal rhag gadael tân gwyllt heb reswm da.

13.7 Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor i roi gwybod iddynt am dwll mawr yn y tarmac yn y ffordd erbyn 6/7 Ucheldre Niwbwrch.

13.8 Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru i holi am nifer y biniau gwastraff Baw cŵn y byddai angen gan y Cyngor Cymuned.

BYDD Y CYFARFOD NESAF CYNGOR CYMUNED RHOSYR AM 7:00 OR GLOCH AR DDYDD LLUN 29ed IONAWR 2018 YN NEUADD PRICHARD JONES NIWBWRCH.